arise

# Fferm Solar Great Harmeston

## Cylchlythyr Cymunedol Mawrth 2026

Mae ymgynghoriad statudol ar y gweill ar gyfer Fferm Solar Great Harmeston.

Bydd Arise Renewable Energy UK, sy'n cynnig y datblygiad, yn ceisio cynhyrchu trydan glân o'r fferm solar 65MWac, ar dir i'r de o Johnston ac 1km i'r gogledd o Steynton, Aberdaugleddau. Mae'r pŵer hwn yn ddigon i gyflenwi tua 34,444 o gartrefi bob blwyddyn, gan helpu i leihau allyriadau carbon a chefnogi'r broses o symud oddi wrth danwydd ffosil. Byddai'r prosiect hefyd yn arwain at fwy na 11,532 tunnell o CO2 y flwyddyn yn llai o allyriadau carbon deuocsid.[1]

Mae ynni glân ac adnewyddadwy yn rhan allweddol o'r cynllun sydd gan Lywodraeth Cymru i gyrraedd sero net erbyn 2050, gan gynnwys y nod y bydd yr holl drydan yn dod o ffynonellau di-garbon 100% erbyn 2035.

Bydd y cynnig hwn yn galluogi'r ffermwyr dan sylw i arallgyfeirio eu hincwm, a gwneud eu gweithrediadau ffermio yn fwy hyfyw yn gyffredinol. Mae Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA) yn dweud bod disgwyl i ffermydd solar, hyd yn oed o dan gynlluniau uchelgeisiol i ehangu pŵer solar, orchuddio llai nag 1% o dir amaethyddol y DU, gan arwain at effaith fach iawn ar ddiogelwch a chynhyrchu bwyd.[2] Yn achos y prosiect hwn, llai nag 20% o'r tir sy'n dir amaethyddol Gorau a Mwyaf Amlbwrpas (BMV).



Sganiwch y cod QR i weld gwefan y prosiect, y cais cynllunio drafft, y deunyddiau ymgynghori a rhoi adborth

I gael rhagor o wybodaeth, ffoniwch **07493 060539** neu ewch i **www.greatharmestonsolar.co.uk** a gofyn i'r tîm eich ffonio chi'n ôl.

[1]Ffynhonnell: Cartrefi: 65MWac / 2700kWh (cartref cyffredin yn y DU) = 34,444. CO2: Cynllun solar 65MWac yn seiliedig ar gynnyrch disgwyliedig rhesymol o 1,000 kWh/kWp y flwyddyn a dwysedd carbon o 0.124 kg CO2/kWh yn ôl set ddata BEIS 2023 = 11,532

[2]https://questions-statements.parliament.uk/written-questions/detail/2024-10-08/7826/

## LLEOLIAD Y SAFLE

Y cynnig yw lleoli Fferm Solar Great Harmeston ar barseli o dir i'r de o bentref Johnston yn Sir Benfro.

Gan fod y prosiect yn un ar gyfer fferm solar sydd â rhwng 10MWac a 350Mwac o gapasiti cynhyrchu, bydd yn cael ei benderfynu o dan system gynllunio Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (DNS). Ar ôl cwblhau'r ymgynghoriad statudol, byddwn yn cyflwyno cais cynllunio i asiantaeth Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru (PEDW). Bydd PEDW yn asesu ein cais cyn i Weinidogion Cymru benderfynu a ddylid rhoi caniatâd cynllunio iddo. Gofynnir am ganiatâd cynllunio dros dro am gyfnod o 40 mlynedd, pan fydd y safle'n cael ei ddatgomisiynu a'r tir yn cael ei ddychwelyd i'w ddefnydd presennol. Dyma'r ail rownd o ymgynghori ar ôl ymgysylltu'n gynnar a chynnal ymgynghoriad anstatudol yn 2025.




Cynllun lleoliad safle yn dangos lleoliad a ffiniau'r safle. Gellir gweld cynllun llawn y safle a'r uwchgynllun tirwedd ar wefan y prosiect ac yn yr arddangosfeydd cyhoeddus.

## TROSOLWG O'R PROSIECT

Mae Fferm Solar Great Harmeston yn cynnwys caeau sydd ar hyn o bryd yn cael eu defnyddio at ddibenion amaethyddol yn bennaf. Mae ardal y cais yn cynnwys tua 316 acer (128 hectar), a fydd yn cael eu defnyddio ar gyfer y datblygiad, ac ar gyfer ardaloedd bioamrywiaeth newydd.

Bydd yr ynni a fydd yn cael ei drosi gan y paneli solar yn rhoi trydan yn uniongyrchol i'r grid cenedlaethol, drwy gysylltu â llinell uwchben leol sydd eisoes yno yn ne'r safle. Bydd y pŵer hwn wedyn yn cael ei ddosbarthu drwy'r grid lleol, gan helpu i ddarparu trydan glân ac adnewyddadwy i gartrefi cyfagos. Un o'r prif resymau dros ddewis y safle yw ei fod yn agos at bwynt cyswllt addas â'r grid, a gellir sicrhau bod yr ynni adnewyddadwy a gynhyrchir yn cael ei dderbyn yn ddiogel. Mae hwn yn ofyniad pwysig ar gyfer prosiectau o'r math hwn a hefyd yn un o'r prif resymau pam nad yw safleoedd tir llwyd yn aml yn gallu bod yn addas ar gyfer datblygiadau solar.

Mae'r fferm solar wedi cael ei dylunio'n ofalus i fod yn un isel ei heffaith, tawel ac amgylcheddol gyfrifol. Rydym wedi dewis lleoliad nad yw cartrefi cyfagos yn gallu ei weld yn glir, drwy ddefnyddio gwrychoedd a choed aeddfed sydd yno eisoes i helpu i sgrinio'r safle. Yn dilyn rownd gyntaf yr ymgynghoriad, mae'r dyluniad wedi cynnwys stepiau oddi wrth derfynau caeau mewn rhai ardaloedd. Credwn y bydd y prosiect hwn yn gallu sicrhau manteision pwysig i fywyd gwyllt lleol drwy greu cynefinoedd newydd a chael gwared ar y gofyniad i ddefnyddio plaladdwyr amaethyddol a pheiriannau.

Pan fydd y safle'n weithredol, nifer fach yn unig o symudiadau gan gerbydau yr ydym yn ei ddisgwyl, llawer llai na datblygiad tai arferol, er enghraifft. Byddwn yn cynnwys Cynllun Rheoli Adeiladu gyda'n cais cynllunio. Bydd hwn yn nodi sut byddwn yn rheoli gweithgarwch cerbydau yn ystod y cyfnod adeiladu. Mae modd gweld y ddogfen hon ar ein gwefan, ochr yn ochr â'r cais cynllun drafft ehangach.

## YMGYNGHORIAD

Rydym wedi dechrau ymgynghoriad statudol ac rydym yn dymuno eich gwahodd i ddod i arddangosfeydd cyhoeddus yn:

- **Eglwys y Bedyddwyr Johnston (Capel y Pentref), Glebelands, Johnston, Sir Benfro, SA62 3PW, ddydd Iau 26 Mawrth rhwng 1pm a 7pm**
- **Yr Hen Ysgol, Tiers Cross, Sir Benfro, SA62 3DA, ddydd Llun 11 Mai rhwng 1pm a 7pm**

Os ydych chi eisiau dod i'r digwyddiad, rhowch wybod i **katie@powiscommunications.co.uk** fod gennych ddiddordeb. Nid oes rhaid cofrestru ond os byddwch yn gwneud hynny byddwn yn gallu cael syniad o faint o bobl sy'n debygol o ddod.

Hefyd, mae gwefan y prosiect **www.greatharmestonsolar.co.uk** yn rhoi rhagor o wybodaeth am y cynnig, y cais cynllunio drafft, y deunyddiau ymgynghori a chynlluniau'r prosiect. Mae hefyd yn galluogi partïon â diddordeb i roi sylwadau ar y gronfa budd cymunedol a fydd yn cael ei chynnwys yn y cynnig.

## RYDYM EISIAU CLYWED EICH SYLWADAU AR EIN CYNNIG

Gallwch chi anfon eich barn atom drwy unrhyw un o'r sianeli isod:

- Mae ffurflenni adborth ar gael yn yr arddangosfa gyhoeddus ac ar-lein yn **www.greatharmestonsolar.co.uk**. Byddwn ni hefyd yn gallu anfon copïau caled drwy'r post os byddwch yn gofyn am hynny.
- Gellir anfon sylwadau at **katie@powiscommunications.co.uk**
- Gallwch chi bostio eich adborth i **FREEPOST PC CONSULTATION** (does dim angen stamp)
- Cofrestrwch eich barn neu gofynnwch i'r tîm eich ffonio'n ôl drwy ffonio **07493 060539**
- Llenwch y ffurflen ar-lein yn **www.greatharmestonsolar.co.uk**

Y dyddiad cau ar gyfer rhoi sylwadau yw **22 Mai 2026**.

Sganiwch y cod QR i weld gwefan y prosiect, y cais cynllunio drafft, y deunyddiau ymgynghori ac i roi adborth.

I gael rhagor o wybodaeth, ffoniwch **07493 060539** neu ewch i **www.greatharmestonsolar.co.uk**